

Cynllun Iaith Gymraeg Welsh Language Scheme 2020-2024

Paul Kaynes, Prif Weithredwr Nia Roberts, Hyrwyddwr Iaith Gymraeg y Staff William James, Hyrwyddwr Iaith Gymraeg y Bwrdd

Diweddarwyd diwethaf 22 Gorffennaf 2020

I. Cyflwyniad

Mae'r cynllun hwn yn amlinellu pam mae'r iaith Gymraeg yn bwysig i Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru (CDCCymru); sut ydym yn bwriadu ei deall, cryfhau a'i datblygu ym mhob elfen o'n gwaith dros y 4 blynedd nesaf; a sut byddwn yn adolygu ac asesu llwyddiant ein cynllun.

Mae CDCCymru yn ymrwymedig i ddatblygu dwyieithrwydd ar draws ei weithgareddau oherwydd:

- Bod Cymru yn wlad ddwyieithog, ac fel cwmni cenedlaethol mae'n angenrheidiol i ni adlewyrchu hyn
- Fel cwmni sy'n ymgymryd â gwaith y tu hwnt i'n ffiniau, rydym yn cydnabod ein bod yn llysgenhadon i'r wlad, ei diwylliant a'i hiaith
- Cydnabyddwn arwyddocâd yr iaith Gymraeg fel adnodd creadigol a diwylliannol unigryw

Mae dawns yn ffurf ar gelfyddyd sy'n mynd uwchlaw iaith; mae'n cyfathrebu drwy symudiadau'r corff, elfennau gweledol a cherddoriaeth ac yn annog cyfranogwyr i ddefnyddio eu corff i gyfathrebu, ac mae ein hunaniaeth Gymreig yn rhan o bwy ydym fel Cwmni. Rydym eisiau sicrhau y gall unrhyw un gael mynediad at beth sydd gennym i'w gynnig, a'i fod yn berthnasol iddynt hwy a'u bywydau a'u dyheadau, yn enwedig yng Nghymru.

Mae Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru yn bodoli i greu dawns ymgysylltiol a rhagorol gyda phob math o bobl, ar gyfer pob math o bobl, mewn pob math o leoedd. Rydym yn creu posibiliadau newydd ynghylch yr hyn y gallai dawns fod, a beth allwn ni fod. Rydym yn meithrin potensial lle nad yw wedi cael ei adnabod, a'i ddatblygu lle mae'n amlwg. Gyda symudiad, creadigrwydd, dychymyg a gofal, rydym yn helpu Cymru a'i hamrywiaeth o bobl a chymunedau i ffynnu, gan arddangos Cymru yn y byd a'r byd yng Nghymru.

Un o'n blaenoriaethau yw cyflawni cyfiawnder cymdeithasol, wedi'i ategu gan ymrwymiad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n cynnwys yr iaith Gymraeg.

Rydym eisoes yn ymrwymedig i ddwyieithrwydd yn nifer o'r ffyrdd yr ydym yn gweithio, yn enwedig o ran ein marchnata a hyrwyddo, e-gyfathrebiadau a recriwtio. Mae CDCCymru yn gweithio'n rheolaidd gyda 6 siaradwr Gymraeg rhugl fel aelodau'r cwmni, Ymddiriedolwyr, neu unigolion llawrydd rheolaidd. Caiff gweithwyr eu cefnogi i ddysgu Gymraeg; mae 5 o weithwyr yn cwblhau cyrsiau iaith ar-lein, mae 1 gweithiwr yn ail flwyddyn dosbarthiadau wythnosol drwy Brifysgol Caerdydd ac 1 gweithiwr newydd gwblhau cyfle Preswyl iaith Gymraeg am wythnos gyfan. Serch hynny, mae gan y Cwmni ragor o waith i'w wneud eto i sicrhau ein bod yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn ein holl waith, ac yn defnyddio'r Gymraeg yn briodol, yn arbennig yn yr ardaloedd hynny o'r genedl lle mae cyfran uchel o siaradwyr Gymraeg iaith gyntaf.

Bydd unrhyw fentrau a pholisïau newydd neu ddiwygiedig sy'n cael eu mabwysiadu bob amser yn hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg lle bynnag mae hynny'n bosibl. Byddwn yn sicrhau bod ein holl staff a gwirfoddolwyr yn ymwybodol o ofynion y Cynllun iaith Gymraeg hwn. Bydd amcanion y polisi hwn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, gyda'r nod o wella'n barhaus. Byddwn yn gweithio tuag at ddarparu'r un safon yn Gymraeg a Saesneg drwy:

- Sicrhau bod ein holl staff/gwirfoddolwyr yn ymwybodol o oblygiadau'r Cynllun iaith Gymraeg hwn
- Annog cyfranogwyr i deimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r Gymraeg drwy wneud defnydd o'r adnoddau sydd ar gael, er enghraifft bathodynau a phosteri iaith Gwaith
- Dod o hyd i wasanaethau cyfieithu o safon uchel i sicrhau bod yr holl ddeunydd perthnasol yn cael ei gyfieithu'n gyflym a dibynadwy.

2. Datganiad

Mae CDCCymru wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yng Nghymru. Credwn fod cynnig gwasanaethau sy'n parchu dewis iaith unigolyn yn gallu gwneud gwahaniaeth sylweddol i brofiad yr unigolyn. Dymunwn annog pobl sydd â chysylltiadau â CDCCymru i deimlo'n gyfforddus yn defnyddio eu hiaith ddewisol. Byddwn yn darparu ein gwasanaethau yn ddwyieithog lle bynnag mae hynny'n ymarferol a phriodol.

Bydd gwasanaeth iaith Gymraeg yn cael ei ystyried yn rhan hanfodol o'n gweithgareddau. Bydd ein gweithdrefnau ar gyfer adnabod gwariant ac adnoddau yn adlewyrchu hyn. Ein nod yw sicrhau bod gwario a defnyddio adnoddau ar wasanaeth iaith Gymraeg yn rhywbeth arferol fel ei fod yn dod yn naturiol cynnig gwasanaeth yn nwy iaith swyddogol Cymru lle bynnag mae hynny'n addas, rhesymol ac ymarferol.

Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut byddwn yn rhoi'r egwyddor hon ar waith wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Bydd y cynllun gweithredu hwn yn egluro sut ac erbyn pa bryd mae'r sefydliad yn gobeithio cyflawni ei amcanion. Bydd dysgu drwy brofiad yn rhan o'r Cynllun hwn, a byddwn yn ymdrechu i sicrhau cynnydd parhaus a rheolaidd i gynnig y gwasanaethau gorau posibl i'n defnyddwyr.

3. Cynllunio a darparu gwasanaethau

Nodau

Mae gennym nodau penodol i ddatblygu ein dwyieithrwydd:

- Cyflawni cyfathrebiad uniongyrchol gyda'n rhanddeiliaid cyfrwng Gymraeg (gan gynnwys cynulleidfaoedd, staff, artistiaid, a chyllidwyr ond heb fod yn gyfyngedig i hynny)
- Cyfoethogi'r gwaith a wnawn
- Codi ymwybyddiaeth o CDCCymru fel cwmni Cymraeg amlwg

Camau Gweithredu

Byddwn yn datblygu ein dwyieithrwydd yn y meysydd cyflwyno canlynol:

- Perfformiadau
- Tŷ Dawns
- Partneriaethau
- Estyn allan ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd
- Recriwtio
- Staff a Bwrdd
- Artistiaid

Perfformiadau

- Ychydig o iaith lafar a ddefnyddir yn ein gwaith. Yn aml mae diffiniad manwl gywir y geiriau yn llai pwysig na'r syniad neu'r ysbryd sydd wrth wraidd iddynt. Yn y dyfodol, byddwn yn archwilio ffyrdd arloesol o ddefnyddio'r Gymraeg yn ein gwaith. (3.1)

Rhaglen Tŷ Dawns

- Mae'r Tŷ Dawns ar gael ar gyfer ystod eang o artistiaid i'w logi i greu, ymarfer a chyflwyno eu gwaith eu hunain. Bydd y Cwmni yn parhau i gefnogi cwmnïau gan weithio drwy gyfrwng y Gymraeg, a chynnig gwybodaeth ynglŷn â llogi yn ddwyieithog. (3.2)
- Pan mae'r Cwmni yn cyflwyno rhaglenni cyfranogiad yn y Tŷ Dawns, bydd yn ymdrechu i ymgysylltu artistiaid Cymraeg i arwain a chyflwyno'r gwaith hwn. (3.3)
- Sicrhau bod yr ymgyrch recriwtio nesaf ar gyfer Cynorthwyyr Digwyddiadau yn targedu siaradwyr Cymraeg.

Partneriaethau

- Byddwn yn ceisio rhagor o bartneriaethau gyda sefydliadau ym mherfeddwlad Cymru (megis ein partneriaid cyfredol, Pontio, Bangor - un o'n Lleoliadau â Blaenoriaeth yng Nghymru a Dawns i Bawb ac asiantaethau dawns ieuenctid eraill yn y gogledd - sy'n ein helpu ni i gysylltu â doniau dawnsio ifanc o gefndiroedd Cymraeg) (3.4)
- Byddwn yn ymdrechu i alluogi cyfathrebiad dwyieithog gyda'r partneriaid hynny, naill ai drwy drefnu staff sy'n siarad Cymraeg neu ddarparu cyfieithwyr mewn cyfarfodydd/digwyddiadau cyhoeddus (3.5).

Estyn allan ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd

- Mae'r Cwmni yn cyflogi 2 Lysgennad Dawns Cymraeg. Mae'r llysgenhadon hyn wedi bod yn gweithio gydag ysgolion Cymraeg

- Byddwn yn parhau i ddatblygu ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg i groesawu cynulleidfaoedd a diolch iddynt ar ddechrau a diwedd pob sgwrs cyn neu ar ôl sioeau a digwyddiadau arbennig yn y Tŷ Dawns ac ar daith.
- Mae ein rhaglen Darganfod Dawns sydd wedi'i thargedu at gynulleidfaoedd o ysgolion a theuluoedd bellach yn cael ei chyflwyno'n ddwyieithog yng Nghymru gan ein Cyfarwyddwr Ymarferion neu Brif Ddawnsiwr Dysgu. Dyma yw'r achos yn holl leoliadau Cymru.

Recriwtio

- Anelu at gynnig y dewis i bobl gael cyfweiliad yn Gymraeg neu Saesneg.

Staff a Bwrdd

- Enwebu hyrwyddwr iaith Gymraeg ar lefel y Bwrdd. (3.6)
- Ar hyn o bryd mae gan y Bwrdd 8 aelod ac un aelod dwyieithog. Y bwriad yw sicrhau bod o leiaf 25% o'r aelodau ar unrhyw bryd yn siaradwyr Cymraeg. (3.7)
- Rydym yn cynnig ychwanegu dwyieithrwydd fel testun trafod blynyddol yng nghyfarfod y Bwrdd yn y dyfodol. (3.8)
- Mae 2 swydd bellach wedi'u dynodi fel blaenoriaethau ar gyfer dysgu Cymraeg: Rheolwr Ymgyrchoedd Marchnata a Chyfarwyddwr Ymarferion. Mae'r ddwy swydd yma yn cynnwys ymrwymiad hanfodol gan ddeiliaid y swyddi i ddysgu Cymraeg i safon resymol, gyda'r ddysg yn cael ei hariannu gan y Cwmni.

Artistiaid

- Mae cyfran gynyddol o'r artistiaid yr ydym yn ymgysylltu â nhw (coreograffwyr, dylunwyr, cyfansoddwyr neu gerddorion) yn siaradwyr Cymraeg. Dymunwn weithio gyda'r rhain ac artistiaid Cymraeg eraill yn amlach yn y dyfodol, gan sicrhau bod y gwaith yn adlewyrchu ein hunaniaeth Gymreig, ac yn gwneud ein gwaith mor hygyrch ac apelgar â phosibl i gynulleidfa Gymraeg. (3.9)

	Can bwy?	Erbyn pryd?	Adnoddau
3.1	Cyfarwyddwr Artistig/Cyfarwyddwr Ymarferion	Rhagfyr 2021	Cyllideb gyfieithu/Cynllun Llysgenhadon Dawns
3.2	Swyddog Teithio a Phrosiectau	Awst 2021	Cyllideb gyfieithu
3.3	Cynhyrchydd Dysgu a Chyfranogi	Awst 2021	Cynllun Llysgenhadon Dawns

3.4	Cynhyrchydd Dysgu a Chyfranogi	Medi 2021	Codi arian ar gyfer gwaith ieuenctid gogledd Cymru
3.5	Cynhyrchydd Dysgu a Chyfranogi	Awst 2021	Cyllideb gyfieithu
3.6	Prif Weithredwr	Ebrill 2020	Dim
3.7	Cadeirydd y Bwrdd	Rhagfyr 2021	Dim
3.8	Prif Weithredwr	Medi 2020	Dim
3.9	Cyfarwyddwr Artistig	Rhagfyr 2021	Craidd

4. Cyfathrebu gyda'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

Gohebiaeth ysgrifenedig: Mae CDCCymru yn croesawu gohebiaeth ysgrifenedig yn Gymraeg a Saesneg.

Bydd yr holl lythyrau Cymraeg sy'n dod i law yn cael eu hateb yn Gymraeg. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod yr holl ohebiaeth yn Gymraeg yn cael sylw cyn pen yr un amserlen â gohebiaeth Saesneg.

Bydd llythyrau i'r cyhoedd yn ddwyieithog yng Nghymru.

Bydd papur â phennawd a negeseuon e-bost CDCCymru yn cynnwys datganiad safonol yn ddwyieithog yn nodi y croesewir gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.
(4.1)

Cyfathrebu dros y ffôn/wyneb yn wyneb: Mae CDCCymru wedi sicrhau bod y rheiny sy'n dymuno cael cyswllt wyneb yn wyneb gydag aelod o staff/gwirfoddolwr Cymraeg yn gallu gwneud hynny. Efallai na fydd hyn yn bosibl bob tro, ond byddwn yn annog ac yn hyfforddi staff/gwirfoddolwyr Cymraeg i

wneud y mwyaf o'u sgiliau i gynnig gwasanaeth mor llawn â phosibl. Os nad yw aelod o staff yn gallu darparu gwasanaeth dwyieithog, bydd yn egluro'r sefyllfa i'r unigolyn a chynnig gwasanaeth iaith Gymraeg gan wirfoddolwr/aelod arall o staff. Os nad oes siaradwyr Cymraeg ar gael, gall y galwr ddewis o blith siaradwr Cymraeg yn rhoi galwad ffôn yn ôl iddo; cyflwyno'r cais yn ysgrifenedig (copi caled/e-bost); neu barhau â'r sgwrs yn Saesneg. (4.2)

Yn dilyn sgwrs dros y ffôn yn Gymraeg, bydd yr holl gyfathrebiadau dilynol, boed yn ysgrifenedig neu ar lafar, yn Gymraeg neu'n ddwyieithog ar gais y galwr.

Bydd yr holl negeseuon ffôn ateb yn ddwyieithog.

Digwyddiadau cyhoeddus: Bydd hysbysiadau o'r holl ddigwyddiadau cyhoeddus yn ddwyieithog ac yn cynnwys datganiad y bydd hawl y rheiny sy'n mynychu i siarad Cymraeg neu Saesneg yn cael ei barchu. Bydd cyflwyniadau yn ddwyieithog, a bydd y Cwmni yn annog pawb i gynnal cydraddoldeb.

Byddwn yn mesur yr angen am gyfleusterau cyfieithu ar y pryd drwy ofyn i gynrychiolwyr ddynodi eu hiaith ddewisol wrth gofrestru. (4.3) Os bydd o leiaf 20% o gynrychiolwyr yn dynodi eu bod yn dymuno cyfathrebu'n Gymraeg, yna byddwn yn trefnu cyfieithydd ar y pryd.

	Gan bwy?	Erbyn pryd?	Adnoddau
4.1	Cyfarwyddwr Cyfathrebu	Medi 2020	Cyllideb gyfieithu
4.2	Hyrwyddwr iaith Gymraeg y Staff	Medi 2020	Dim
4.3	Cyfarwyddwr Cyfathrebu	Medi 2020	Cyllideb gyfieithu/costau'r digwyddiad

5. Delwedd gorfforaethol

Bydd delwedd gyhoeddus a hunaniaeth gorfforaethol Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys ei gyfeiriad, logo, hunaniaeth weledol, ac unrhyw wybodaeth safonol arall yn ddwyieithog. Bydd hyn yn cynnwys papur â phennawd, slipiau cyfarchion, cardiau busnes, bathodynau enwau, rhaglenni, arwyddion, cerbydau a safleoedd.

Bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran maint, fformat, ansawdd, eglurder, ac amlygrwydd. Bydd hyn yn cynnwys arwyddion mewnol ac allanol. Bydd yr arwyddion yn cynnal cydraddoldeb, gyda'r Gymraeg yn ymddangos uwchben neu o flaen y Saesneg. (5.1)

	Can bwy?	Erbyn pryd?	Adnoddau
5.1	Cyfarwyddwr Cyfathrebu	Medi 2021	Cyllideb farchnata

6. Deunyddiau a Chyhoeddiadau Marchnata

Pob deunydd argraffedig cyhoeddus megis posteri, ffurflenni, polisïau, pecynnau recriwtio, adroddiadau blynyddol, a datganiadau. (6.1) Os nad yw'n bosibl cyhoeddi dogfennau mewn fformat dwyieithog, bydd CDCCymru yn sicrhau y bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn ymddangos ar yr un pryd.

Bydd marsiandiaeth yn cael ei gynhyrchu'n ddwyieithog.

Bydd staff, ymgynghorwyr, dylunwyr ac argraffwyr yn cael canllawiau ysgrifenedig ynglŷn â sut i ymdrin â chyhoeddiadau dwyieithog.

	Can bwy?	Erbyn pryd?	Adnoddau
6.1	Cyfarwyddwr Cyfathrebu	Medi 2020	Cyllideb gyfieithu

7. Datganiadau i'r wasg

Bydd datganiadau i'r wasg yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Bydd cyfweiliadau yn cael eu cynnal yn Gymraeg lle bynnag sy'n bosibl. O ganlyniad, bydd llefarydd y wasg Cymraeg ar gael.

8. Gwefan

Bydd aelodau'r cyhoedd yn gallu cael mynediad at wybodaeth drwy ein gwefan yn Gymraeg a Saesneg. Bydd y wefan yn dynodi dewis iaith yn glir. Byddwn yn

datblygu cynnwys dwyieithog y wefan dros amser ac yn blaenoriaethu'r tudalennau mwyaf poblogaidd a segur yn y lle cyntaf.

Bydd tudalennau Cymraeg a Saesneg ar y wefan yn cael eu diwygio a'u diweddarau ar yr un pryd.

Bydd yr holl adroddiadau, dogfennau a ffurflenni ar y wefan ar gael yn ddwyieithog a bydd yr holl fersiynau ar gael i'w lawrlwytho'n rhwydd.

Bydd staff, ymgynghorwyr, dylunwyr ac argraffwyr yn cael canllawiau ysgrifenedig ynglŷn â sut i ymdrin â chyhoeddiadau dwyieithog (8.1).

Wrth gynllunio neu ailddatblygu'r wefan byddwn yn ystyried canllawiau Comisiynydd y Gymraeg: 'technoleg, gwefannau a meddalwedd: Ystyried y Gymraeg.'

Er mwyn helpu staff a gwirfoddolwyr i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg, archwilio posibilrwydd meddalwedd TG, megis y geiriadur Cysgliad. Bydd fersiynau iaith Gymraeg o Microsoft Windows ac Office ar gael i staff a gwirfoddolwyr sy'n dymuno eu defnyddio (8.2).

	Gan bwy?	Erbyn pryd?	Adnoddau
8.1	Cyfarwyddwr Cyfathrebu	Rhagfyr 2020	Dim
8.2	Cyfarwyddwr Gweithrediadau	Rhagfyr 2020	Cyllideb TG

9. Gweithredu'r Cynllun

Bydd CDCCymru yn asesu pa sgiliau iaith sy'n angenrheidiol ym mhob gweithle ac i bob gweithgarwch craidd er mwyn gweithredu'r Cynllun hwn. Bydd swydd ddisgrifiadau yn cynnwys adran yn nodi bod y gallu i gyfathrebu'n Gymraeg yn hanfodol, dymunol, neu ddim ei angen ar gyfer y swydd dan sylw.

Byddwn yn cynnal adolygiad o sgiliau iaith staff a byddwn yn cynnwys y wybodaeth hon mewn rhestr cysylltiadau mewnol er mwyn (a) gwneud defnydd llawn o'u sgiliau iaith a (b) cydnabod unrhyw brinder sgiliau yn y tîm. Ymdrinnir ag unrhyw brinder sgiliau iaith drwy hyfforddi staff cyfredol neu wrth recriwtio staff newydd fel sy'n briodol. (9.1)

Bydd staff nad ydynt yn siarad Cymraeg yn cael hyfforddiant ynglŷn â sut i ateb y ffôn yn ddwyieithog a sut i gyfeirio ymholiadau Cymraeg yn ogystal â sut i

ynganu a sillafu enwau Cymraeg. (9.2)

Wrth recriwtio staff, cyfarwyddwyr a gwirfoddolwyr newydd, bydd y Bwrdd yn cymryd i ystyriaeth gofyniad ieithyddol y swydd a'r tîm cyfan er mwyn gweithredu'r Cynllun hwn. Mae CDCCymru yn annog a chefnogi yn weithredol staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg a chefnogi staff Cymraeg sydd eisiau gwella eu sgiliau iaith. Rydym yn ariannu hyfforddiant Cymraeg ac yn caniatáu i staff fynychu cyrsiau yn ystod oriau gwaith.

Bydd copïau o eiriaduron Cymraeg ar gael yn ein swyddfa (9.3)

	Gan bwy?	Erbyn pryd?	Adnoddau
9.1	Cyfarwyddwr Gweithrediadau	Mawrth 2022	Cyllideb hyfforddiant/am ddim
9.2	Hyrwyddwr Iaith Gymraeg y Staff	parhaus	Dim
9.3	Cyfarwyddwr Gweithrediadau	Rhagfyr 2020	Cyllideb offer swyddfa

10. Gweithredu a monitro

Bydd y Cyfarwyddwr Gweithrediadau a'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu, ynghyd â Hyrwyddwyr Iaith Gymraeg y Staff ac Ymddiriedolwyr yn monitro'r gwaith o weithredu'r Cynllun. Bydd y cynllun yn cael ei adolygu a'i ddiwygio bob blwyddyn (10.1).

Croesawn awgrymiadau i wella'r Cynllun a gwasanaeth iaith Gymraeg. Bydd hyn yn cael ei hysbysebu ar ein gwefan (10.2). Dylid anfon unrhyw argymhellion at y Cyfarwyddwr Cyfathrebu.

Bydd adran ar weithredu'r Cynllun iaith Gymraeg bob amser yn cael ei chynnwys yn ein hadroddiadau blyneddol (10.3).

	Gan bwy?	Erbyn pryd?	Adnoddau
10.1	Cyfarwyddwr Gweithrediadau	Mai 2021	Dim

10.2	Cyfarwyddwr Cyfathrebu	Rhagfyr 2020	Dim
10.2	Prif Weithredwr	Ionawr 2021	Dim